

## Cyfarwyddwr Prosiect – Prosiect O'r Mynydd i'r Môr

### Disgrifiad o'r Rôl

Sefydliad arweiniol yw Dad-ddofi Prydain (*Rewilding Britain*) ym mhrosiect partneriaeth cyffrous ac arloesol newydd O'r Mynydd i'r Môr, ochr yn ochr â Coed Cadw, yr RSPB, Ymddiriedolaethau Natur, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill. Mae prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn anelu at fod yr un cyntaf ym Mhrydain i sefydlu ecosystem ddeinamig o ben y mynyddoedd i'r môr.

Bydd hyn yn gweld un parth di-dor cyforiog o ran natur fydd yn cynnwys o leiaf 10,000 ha o dir a 28,400 ha o'r môr o ben Pumlumon - y pwynt uchaf yng nghanolbarth Cymru - i lawr drwy gymoedd coediog i aber afon Dyfi ac allan i Fae Ceredigion. Bydd yr ecosystemau ffyniannus a ddaw i'r fei yn sgil adfer prosesau naturiol yn cynnal economi gydnherth sy'n seiliedig ar natur ac sy'n cynnig dyfodol cynaliadwy i gymunedau lleol yn ogystal â chreu cyfleoedd i bobl ailgysylltu â natur wyllt. Bydd hyn yn ei dro'n dangos model blaengar ar gyfer cadwraeth a rheoli adnoddau naturiol y gellir ei roi ar waith eto mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU.



Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Prosiect sydd â sgiliau arweinyddiaeth, cymhelliad a phrofiad i gydweithio i droi prosiect arloesol ond heriol yn realiti. Bydd angen i chi fod ar dân dros natur a deall materion amgylcheddol, diwylliannol a defnydd tir yn yr ardal. Byddwch yn gallu tynnu ar arbenigedd eang partneriaid a chynghorwyr y prosiect gan ymgymryd ag ymagwedd entrepreneuriaid i sicrhau bod y prosiect yn gweithio yn ecolegol ac yn economaidd.

Mae'r rôl yma wedi'i lleoli yn ardal y prosiect ac yn gofyn ymrwymiad llawn-amser ond rydym yn agored i ystyried trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer ymgeiswyr eithriadol. Byddwch yn adrodd wrth Brif Weithredwr Dad-ddofi Prydain. Byddwch hefyd yn cydweithio'n agos â Thîm Rheoli a Grŵp Llywio Partneriaeth O'r Mynydd i'r Môr ac yn adrodd wrthynt.

Anfonwch eich CV, eich rhesymau am ymgeisio am y swydd a lle, yn eich barn chi, y mae'ch set sgiliau'n cyfateb i'n meini prawf hanfodol a dymunol fel a restrir isod at [admin@rewildingbritain.org.uk](mailto:admin@rewildingbritain.org.uk) erbyn 5yp, 28 Hydref.

### Prif Ddiben y Swydd

Arwain ar gyfeiriad strategol, rheoli, gweithredu a chydlynid cyffredinol prosiect O'r Mynydd i'r Môr mewn cydgysylltiad â phartneriaeth y prosiect gan ymgymryd ag ymagwedd amlsector.

### Prif Gyfrifoldebau a Thasgau

- Arwain ar gyfeiriad strategol, datblygiad trefniadol, trosolwg ariannol a llwyddiant gweithredol y prosiect
- Datblygu a chyfleu gweledigaeth ddewr gyda'r prif randdeiliaid sy'n agor lle ar gyfer newid
- Meithrin cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol i wireddu'r weledigaeth a'r strategaeth
- Meithrin cysylltiadau ar draws gwahanol grwpiau buddiant a datblygu gwerthoedd a diben cyffredin
- Cynrychioli'r sefydliad gerbron y cyhoedd, sefydliadau eraill, cyllidwyr a'r cyfryngau
- Adeiladu a rheoli tîm effeithiol ar draws y partneriaid gan gynnwys recriwtio, cadw a rheoli perfformiad staff/gwirfoddolwyr a chydweithio â nhw a phartneriaid arweiniol i gyflwyno'r cynllun gweithredu
- Hwyluso dull cyfranogol o weithio mewn partneriaeth at ddatblygu datrysiadau a arweinir yn lleol

- Sicrhau bod ymgysylltiad y gymuned a buddion i'r gymuned yn cael eu hymgorffori yn natblygiad y prosiect
- Sicrhau rheoli ariannol ac atebolrwydd effeithiol gan weithio'n unol â phrotocolau'r bartneriaeth
- Sicrhau bod y dulliau yn eu lle ar gyfer dysgu gan, monitro a gwerthuso'r prosiect gan gynnwys y dulliau i newid cyfeiriad yn gyflym pan fydd gofyn.

## Manyleb y Person

	Hanfodol	Dymunol
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad helaeth o arweinyddiaeth a rheoli rhaglenni/prosiectau gan gynnwys prawf o'r gallu i ddod â'r gorau o unigolion a thimau gan eu sbarduno a'u grymuso a gadael i sgiliau amrywiol ddatblygu</li> <li>• Sgiliau strategol cryf at droi syniad heriol yn realiti ymarferol ar draws partneriaeth amlddisgyblaethol cymhleth</li> <li>• Sgiliau rhyngpersonol, hwyluso, trafod a chyfathrebu ardderchog; yn gallu cymell ac ysbrydoli ar lafar ac yn ysgrifenedig</li> <li>• Yn gallu cynrychioli'r prosiect ar bob lefel ac ar draws sectorau i gyflawni amcanion penodol a chryfhau proffil a hygredd y prosiect</li> <li>• Y gallu i feddwl yn greadigol ac addasu camau gweithredu'n hyblyg i amgylchedd cymhleth a newidiol</li> <li>• Sgiliau/profiad o reoli ariannol a chyllidebol</li> <li>• Y gallu i weithio'n annibynnol, datrys problemau, trafod prosiectau lluosog a gwneud penderfyniadau doeth mewn ffordd drefnus a phroffesiynol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o arweinyddiaeth ar draws gwahanol sectorau, e.e. cyhoeddus, busnes, elusennol</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hynod ddymunol</li> <li>• Profiad o fenter a/neu'r gallu i ymgymryd ag ymagwedd entrepreneuriaidd</li> <li>• Y gallu i weithio'n fedrus â gwahanol safbwyntiau a chyfleu syniadau heriol gydag argyhoeddiad</li> </ul>
Gwybodaeth a Phrofiad	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Enw da o ran creu partneriaethau amlddisgyblaethol cryf a chydweithio ar draws amrywiaeth eang o randdeiliaid ar bob lefel</li> <li>• Enw da o ran adeiladu timau effeithiol i gydweithio tuag at nodau cyffredin</li> <li>• Dealltwriaeth dda a phrofiad uniongyrchol o faterion amgylcheddol, diwylliannol a defnydd tir yng Nghymru.</li> <li>• Dealltwriaeth dda o'r diwylliant Cymreig a'r Gymraeg a brwdfrydedd amlwg drostynt</li> <li>• Cefndir mewn, neu ddealltwriaeth brofadwyo, ddad-ddofi/adfer ecosystemau a thân yn eich bol drostynt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth helaeth am ardal y prosiect</li> <li>• Dealltwriaeth a phrofiad o ddulliau cyfranogol o ymgysylltu â'r gymuned</li> <li>• Rhwydwaith da o gysylltiadau naill ai'n lleol neu ar y lefel genedlaethol yng Nghymru.</li> </ul>
Ymddygiad	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arweinydd ysbrydoledig â gweledigaeth</li> <li>• Ymrwymiad i ymagwedd uchelgeisiol prosiect O'r Mynydd i'r Môr</li> <li>• Yn gallu arwain yn ogystal â chefnogi eraill a gweithio fel rhan o dîm.</li> <li>• Yn ymgymryd ag ymagwedd greadigol ac entrepreneuriaidd at arloesedd</li> <li>• Yn meithrin cysylltiadau personol a sefydliadol cadarnhaol</li> <li>• Cryf eich cymhelliad ac yn gallu gweithio ar eich liwt eich hun</li> </ul>	
Arall	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gallu teithio'n rheolaidd yng Nghymru ac ymhellach ambell waith</li> <li>• Hawl i weithio yn y DU</li> <li>• Trwydded yrru i'r DU.</li> </ul>	

## Telerau ac amodau

**Cyflog:** Cyflog cystadleuol tua £40,000 i £45,000 gan ddibynnu ar brofiad, ynghyd â buddion safonol Dad-ddofi Prydain (e.e. 25 diwrnod o wyliau)

**Linellau Adrodd:** Rheolwr llinell deiliad y swydd yw Prif Weithredwr Dad-ddofi Prydain ac mae'r deiliad yn adrodd wrth Dîm Rheoli a Phwyllgor Llywio O'r Mynydd i'r Môr

**Cyfrifoldeb Cyllidebol:** Goruchwyliaeth dros holl gyllid y prosiect gyda chyfrifoldeb cyllidebol am gyllid dyranedig Dad-ddofi Prydain

**Dyddiad Dechrau:** Tachwedd 2018

**Contract:** wythnos waith 35 awr a all ofyn gweithio ambell gyda'r nos neu benwythnos pan fydd angen mynychu cyfarfodydd allanol. Cyfnod prawf cychwynol hyd at chwe mis. Ystyrir gweithio'n hyblyg i ymgeiswyr eithriadol.

Dylai pob ymgeisydd fod yn ymwybodol nad oes ond cyllid cychwynol hyd at 5 mlynedd ar gyfer y swydd.

**Lleoliad:** Gweithio o'ch cartref neu'n agos i ardal y prosiect (Gogledd Ceredigion / Gogledd-orllewin Powys). Gall cyfarfodydd fod ym mhob rhan o Gymru a chynnwys teithio i rannau eraill o'r DU ac Ewrop

**Y Gymraeg:** Cynigir gwersi Cymraeg i unrhyw ymgeisydd nad yw'n rhugl yn yr iaith a disgwylir iddo dderbyn yr hyfforddiant yma

**Cydraddoldeb mewn cyflogaeth:** Bydd ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar restr fer a'u dethol yn ôl eu haddasrwydd i'r swydd heb ystyried nac oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd neu greddo, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol.